

Rhaid i fi

Geirfa

Ilofnodi – to sign

canu'r gloch – to ring the bell

erbyn – by



Syniad da!



Apiau Selog

Selog (which translates as 'cute' in north Wales) is a little dragon created by Menter Iaith Môn to help families use Cymraeg yn y cartref. Selog apps are a great way to practise your Cymraeg gyda'r plant and support your child's learning. Mae pump ap Selog ar gael:

Hoff Ganeuon Selog (favourite songs):

<https://apps.apple.com/us/app/hoff-ganeuon-selog/id1255630346>

Canu Selog:

<https://apps.apple.com/us/app/canu-selog-2/id1481461214>



ioga

<https://apps.apple.com/us/app/ioga-selog/id1481194902>



Darllen

<https://apps.apple.com/us/app/hoff-lyfrau-selog/id1255894814>



Ymarfer corff

<https://apps.apple.com/gb/app/symud-selog/id1489737940>



Cân: Dau Gi Bach

*This is one of the most popular Welsh nursery rhymes.
Its simple tune and lyrics are very easy to learn.*

Dau gi bach yn mynd i'r coed
Esgid newydd am bob troed
Dau gi bach yn dŵad adre
Wedi colli un o'u sgidiau
Dau gi bach

* In north Wales, **dŵad** is used instead of **dod**.

▶ Gwylwch fersiwn Caru Canu yma: <https://www.youtube.com/watch?v=WVx7d8MKQc4>

▶ Dysgwch Dau Gi Bach gyda Matt Johnson yma: <https://www.youtube.com/watch?v=oHaQ5XYZvGs>

*Two little dogs go to the woods
With new shoes on each foot
Two little dogs come home
With one shoe missing
Two little dogs*



Sgwrs - Yn y tŷ

Plentyn: Gaf i chwarae Minecraft gyda Lleucu heno?

Rhiant: Oes gwaith cartref gyda ti?

Plentyn: Ym... oes...mae tipyn bach gyda fi.

Rhiant: Wel, rhaid i ti wneud dy waith cartref cyn chwarae Minecraft.

Plentyn: lawn.

Rhiant: Hefyd, rhaid i ti ymarfer y gitâr.

Plentyn: Oes rhaid i fi?

Rhiant: Oes, wrth gwrs. Wyt ti'n

cofio? Mae gwers gyda ti yn yr ysgol yfory. Rhaid i ti ymarfer neu fydd Mr Price ddim yn hapus!

Plentyn: lawn.

Rhiant: Wel?

Plentyn: Wel beth?

Rhiant: Paid ag eistedd fan hyn. Cer i wneud dy waith cartref ac ymarfer y gitâr neu fydd dim amser i chwarae Minecraft!

Plentyn: lawn, iawn, dw i'n mynd.

Beth mae'n rhaid i'ch teulu chi wneud y penwythnos yma?

Siaradwch â'ch partner yn defnyddio...

rhaid i fi / rhaid i ni / rhaid i Sam / rhaid iddo fe / rhaid iddi hi / rhaid iddyn nhw.

Oes rhaid i chi wneud rhai o'r pethau yma?

- Mynd â'r plant i barti.
- Helpu'r plant i wneud gwaith cartref.
- Mynd i weld teulu.
- Mynd â'r plant i wneud chwaraeon.
- Tacluso.
- Glanhau'r tŷ.
- Golchi dillad.
- Newid y gwelyau.
- Golchi'r car.
- Mynd i'r llyfrgell.
- Gwneud cinio dydd Sul.

Sgwrs – Yn yr ysgol

Derbynnnydd: Bore da, Ysgol Bryn Castell.

Rhiant: Bore da. Marian Jones, mam Anwen Jones o'r dosbarth Meithrin yma. Rhaid i fi gasglu Anwen yn gynnar heddiw. Mae apwyntiad deintydd gyda hi.

Derbynnnydd: lawn, dim problem. Faint o'r gloch?

Rhiant: Mae'r apwyntiad am dri o'r gloch felly bydda i'n dod i'r ysgol erbyn hanner awr wedi dau.

Derbynnnydd: lawn. Dych chi'n gwybod beth i wneud? Dych chi wedi casglu Anwen yn gynnar o'r blaen?

Rhiant: Nac ydw.

Derbynnnydd: Wel, rhaid i chi

ganu'r gloch. Wedyn rhaid i chi ddod i'r swyddfa a llofnodi'r llyfr.

Rhiant: lawn, dw i'n deall. Diolch.

Derbynnnydd: Gwela i chi wedyn.

Rhiant: Hwyl!



Edrychwch ar y lluniau. Beth mae'n rhaid i'r plant wneud?

*Answer in full sentences, using the correct form of 'i' (iddo fe/ iddi hi etc).
The first one has been done for you.*



Rhaid iddo fe wisgo cot law.



Rhaid



Rhaid



Rhaid

Cyn ac ar ôl

Geirfa

ras(ys) – race(s)

crafu – to scrape, to scratch

chwydu – to vomit

edrych ar ôl – to look after

gwerth y byd – priceless, worth their weight in gold

wedi blino'n lân – very tired, totally shattered

bygi(s) – buggy(buggies)

bywyd(au) – life (lives)

cilometr(au) – kilometre(s)

Syniad da!



Chwarae gemau yn Gymraeg

If you're stuck in the car with the children or trying to pass the time without toys or gadgets, it's good to have a repertoire of games to keep everyone entertained.

Beth am chwarae yn Gymraeg? Dyma syniadau:

- **Dw i'n gweld gyda fy llygad bach i... rhywbeth yn dechrau gyda ...**
I spy with my little eye... something beginning with ...

- **Cuddio *Hide and seek***

“Dw i'n cyfri i ddau ddeg.”

“I'm counting to twenty.”

“Barod neu beidio, dyma fi'n dod!”

“Ready or not, here I come!”

“Ble rwyd ti?”

“Ble dych chi?”

“Dyma fi!”

- **Beth dw i?**


Take turns with your child to describe an animal yn Gymraeg, er enghraifft:

“Dw i'n byw ar y fferm. Dw i'n dweud “mŵ”. “Buwch wyt ti?” “Ie!”

Soon you'll be able to describe famous people and ask more complicated questions yn Gymraeg.

- *With older children, you can try to make a chain of words yn Gymraeg (or a mix of Welsh and English until you have a broader vocabulary). You must think of a word beginning with the final letter of the last word, er enghraifft:*

bwyd → deinosor → rysâit → tatws → selsig → glaw → wal → lolfa → adeiladwr



Cân: Brest Pen Coed

This is a great song to pass the time on a long car journey. After the first time, you have to miss out some words, as shown below. Don't forget the arm movements!

Awn am dro i Frest Pen Coed,
 Awn am dro i Frest Pen Coed,
 Dyna'r lle difyrraf y bûm i ynddo erioed,
 Awn am dro i Frest Pen Coed
 Awn am dro i _____ Pen Coed,
 awn am dro i _____ Pen Coed,
 Dyna'r lle difyrraf y bûm i ynddo erioed,
 Awn am dro i _____ Pen Coed

Let's go for a walk to Brest Pen Coed

It's the most pleasant place I've ever been

Awn am dro i _____ Coed,
 awn am dro i _____ Coed,
 Dyna'r lle difyrraf y bûm i ynddo erioed,
 Awn am dro i _____ Coed

Awn am dro i _____,
 awn am dro i _____,
 Dyna'r lle difyrraf y bûm i ynddo erioed,
 Awn am dro i _____

Awn am dro...

1. i Frest



2. pen



3. coed

4. Dyna'r lle difyrraf y bûm i ynddo erioed



<https://www.youtube.com/watch?v=DMobjj23eKw>

This song can be found on the classic children's album, Cwm-Rhyd-y-Rhosyn. Visit <https://sainwales.com/> for more information.



Sgwrs – yn y gwaith

Rheolwr: O'r diwedd! Rwyd ti'n hwyr iawn!

Lyn: Sori! Dw i wedi cael amser ofnadwy y bore 'ma.

Rheolwr: Beth ddigwyddodd?

Lyn: Wel, roedd Noa yn dost y bore 'ma. Chwydodd e yn y gwely. Felly, cyn gwneud unrhyw beth arall roedd rhaid iddo fe gael bath.

Rheolwr: O.

Lyn: Wedyn, ar ôl iddo fe gael bath roedd rhaid i fi olchi'r pyjamas a'r dillad gwely.

Rheolwr: Dw i'n deall.

Lyn: Ar ôl golchi popeth, roedd rhaid i fi ffonio fy Mam.

Rheolwr: Pam?

Lyn: Achos doedd Noa ddim yn gallu mynd i'r ysgol. Felly, roedd rhaid i Mam ddod i'r tŷ i edrych ar ôl Noa.

Rheolwr: Dw i'n gweld.

Lyn: Cyn i Mam gyrraedd roedd rhaid i fi wneud brecwast i Lois. Ar ôl iddi hi gael brecwast, roedd rhaid i fi helpu Lois i wisgo. Ar ôl i Mam gyrraedd, es i â Lois i'r car... ond roedd iâ dros y ffenestri i gyd! Felly, roedd rhaid i fi gychwyn y car a chrafu'r ffenestri. Wedyn, cyn dod i'r gwaith, roedd rhaid i fi fynd â Lois i'r ysgol. Roedd y traffig yn ofnadwy...

Rheolwr: Lyn, rwyd ti yma nawr. Does dim ots. Wyt ti eisiau coffi?

Lyn: Ydw, plis. Coffi cryf gyda llaeth a dau siwgr.

Rheolwr: Ar y ffordd...



Beth oedd rhaid i Lyn wneud cyn iddi hi gyrraedd y gwaith?

Gyda'ch partner, ysgrifennwch dri pheth roedd rhaid iddi hi wneud.

1.

2.

3.

Ond dyn yw Lyn. Ysgrifennwch dri pheth arall roedd rhaid iddo fe wneud.

1.

2.

3.



Sgwrs

Jo: Cyn i fi gael y plant, ro'n i'n rhedeg marathons.

Mal: O't ti?

Jo: O'n. Ro'n i'n ffit iawn. Mae'n anodd nawr. Does dim amser i redeg yn bell. Ond dw i wedi dechrau rhedeg tipyn bach – gyda'r bygi! Dw i eisiau gwneud ras deg cilomedr ar ôl y Nadolig.

Mal: Da iawn ti. Mae llawer o bethau wedi newid i fi hefyd. Cyn i ni gael y plant, ro'n i a fy mhartner yn

mynd mas bob penwythnos. Ond nawr, dw i'n cwmpo i gysgu ar y sofffa cyn naw o'r gloch ar nos Wener! Dw i wedi blino'n lân!

Jo: Dw i wedi blino drwy'r amser hefyd. Cyn i fi gael y plant, ro'n i'n darllen llawer o lyfrau ond nawr dw i'n darllen Facebook ac yn edrych ar Peppa ar y teledu gyda'r plant.

Mal: Mae bywyd wedi newid – ond dw i'n hapus iawn.

Jo: A fi. Mae'r plant werth y byd.

Newidiwch y geiriau sy wedi'u tanlinellu./Change the words which have been underlined.

Siaradwch

Gyda'ch partner, siaradwch am:

- eich bywyd **cyn i chi** gael plant, ac **ar ôl i chi** gael plant
- beth mae eich plentyn/plant yn wneud yn y bore cyn iddo fe/iddi hi/iddyn nhw

fynd i'r ysgol

- beth mae eich plentyn/plant yn wneud ar ôl iddo fe/iddi hi/iddyn nhw ddod adre o'r ysgol